# Dr Diane Williams




Role
Aelod o Bwyllgor Cymru
Mae Dr Diane Williams yn archeolegydd ac wedi gweithio ym maes treftadaeth y sector cyhoeddus ers dros 30 mlynedd.

A hithau wedi'i geni a'i magu yn Y Barri, de Cymru, astudiodd Diane archaeoleg mewn prifysgolion yng Nghaerdydd a Bradford. Treuliodd amser yn y maes yn goruchwylio prosiectau Gwasanaethau Gweithlu cyn dychwelyd i Gymru i gwblhau doethuriaeth mewn archeoleg amgylcheddol.

Gan ddianc o'r labordy a'r byd academaidd, symudodd Diane i faes treftadaeth y sector cyhoeddus lle y mae wedi gweithio ers dros 30 mlynedd. Treuliodd y rhan fwyaf o'r amser hwn yn Cadw (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru), a chyfnod byr yn gweithio i Gomisiwn Brenhinol Henebion Lloegr/English Heritage. Bu'n ymwneud â dehongli a chyflwyno henebion hanesyddol i'r cyhoedd. Cyfrannodd at gorff sylweddol o arweiniad i gefnogi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, sydd bellach wedi'i chydgrynhoi fel Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

Mae Diane wedi cyhoeddi papurau ar archaeoleg amgylcheddol a chanllawiau ar gyfer safleoedd Cadw. Mae hi'n Gymrawd o Gymdeithas Hynafiaethwyr Llundain, yn aelod o Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr ac yn weithiwr maes sy'n cyfrannu at Gorpws Cerfluniau Romanésg Prydain Fawr ac Iwerddon.